BCR 02

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Ymchwiliad i’r Adolygiad o Siarter y BBC

Inquiry into the BBC Charter Review

Ymateb gan: Ffilm Cymru Wales

Response from: Ffilm Cymru Wales

## Ymateb i
## Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Adolygiad Siarter y BBC

**Gweler isod ymateb Ffilm Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Adolygiad Siarter y BBC (Hydref 2015)**

Os oes angen ichi gysylltu â ni ynglŷn â'r ymateb hwn, cysylltwch â: Pauline Burt, Prif Swyddog Gweithredol Ffilm Cymru d/o angharad@ffilmcymruwales.com

### Gwybodaeth gefndir

Mae Ffilm Cymru yn ddirprwy loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI, ac mae'n ymrwymedig i ddatblygiad strategol y sector ffilm yng Nghymru a datblygu'r manteision cymdeithasol, diwylliannol, addysgol ac economaidd sydd i ffilm i bobl Cymru.

Mae gwaith Ffilm Cymru yn cwmpasu meysydd Creu, Gweld a Dysgu ac yn cynnwys ymrwymiad i:

- Ddatblygu sector a diwylliant ffilm yng Nghymru sydd yn fwy cynhwysol;
- Parhau i ddatblygu dull ystwyth ac ymaddasol sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa, sy'n gwella mynediad at ffilm annibynnol ledled Cymru i bawb, ac sy'n rhoi lle canolog i gynllunio cynulleidfa ar sail tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau cynhyrchu;
- Nodi'r gwerth posibl sydd i gynnig ffilm ar gam cynnar yn y broses. A chynorthwyo i ddatblygu eiddo deallusol ategol, asedau addysgol a strategaethau datblygu cynulleidfa ochr yn ochr â'r gwaith o gynhyrchu'r ffilm, lle y bo'n briodol;
- Annog rhagoriaeth a thwf cwmnïau cynaliadwy Cymreig.

Mae mwy o wybodaeth amdanom ar gael fan hyn: www.ffilmcymruwales.com

### Cyd-destun ein hymateb

Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar agweddau ar Adolygiad Siarter y BBC sy'n ymwneud â'i rôl o ran datblygu a chynnal yr hyfforddiant, y doniau, a'r cyfleoedd gwaith sy'n sylfaen i'r diwydiannau creadigol ledled y Deyrnas Unedig, ac yn benodol mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny yng Nghymru. Yn ogystal â phwysigrwydd hanfodol y BBC wrth ddatblygu a chynnal sector amrywiol a chynhwysol sy'n ddeniadol i gynulleidfaoedd eang ac amrywiol.

### <u>Ymateb i gwestiynau adolygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u>

**Darpariaeth gwasanaethau'r BBC i'r dyfodol yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg:**

Mae'r BBC yn sylfaen gadarn i'r diwydiannau creadigol ledled y Deyrnas Unedig, ac mae gan y gorfforaeth enw da am wasanaethau o ansawdd uchel.

Yng Nghymru, cafwyd perthynas gynhyrchiol o gydweithio rhwng BBC Cymru ac S4C, a byddem yn annog datblygu'r arfer o gydgomisiynu cynnwys ymhellach, i sicrhau y caiff cynnwys o ansawdd uchel yn y Gymraeg ei gynnal a'i ddatblygu ar draws cynnwys ffilm a theledu a chynnwys rhyngweithiol digidol.

Yn benodol, mae'n werth pwysleisio rôl BBC Cymru wrth ddatblygu'r seilwaith o griw, cyfleusterau a gwasanaethau lleol, yn arbennig yn dilyn ymrwymiad y BBC i ailddosbarthu ei weithgarwch ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys adleoli swmp sylweddol o gynnwys drama rhwydwaith i Gaerdydd, gan roi sylfaen i'w phentref drama a'r sgil-effeithiau sydd wedi cynorthwyo i seilwaith y diwydiannau creadigol esblygu yn Abertawe. Mae hyn o fudd ar draws y diwydiannau creadigol, wrth i griw, cyfleusterau a gwasanaethau weithio'n aml ar draws is-sectorau, yn arbennig mewn perthynas â ffilm ac wrth ddatblygu cynnwys yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Er bod y BBC, yn ddi-os, wedi cyfrannu'n sylweddol at dyfu seilwaith y criw a'r cyfleusterau, gan gynyddu gallu Cymru i wasanaethu ym maes cynhyrchu ffilm a theledu yn lleol a thrwy fewnfuddsoddi, ychydig iawn a wnaed i ddatblygu cynnwys ffilm sy'n tarddu o Gymru a datblygu doniau o Gymru (awduron, cyfarwyddwyr a chwmnïau cynhyrchu). Yn ei dro, mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu'r sylfaen o ddoniau i'r dyfodol a chynaliadwyedd y llunwyr cynnwys gwreiddiol lleol, gan beri i Gymru fod yn fwy agored i amrywiadau yn y farchnad, lle y bydd cynnwys symudol yn ffilmio yn y lleoliadau mwyaf cystadleuol. Mewn 9 mlynedd, un ffilm hir a gomisiynwyd gan BBC Cymru – *Third Star*, gyda Benedict Cumberbatch yn serennu ynddi, a hon oedd y ffilm glo yn Ngŵyl Ffilmiau Caeredin. Mae hyn yn weithgarwch annigonol i gyfrannu'n ystyrlon i'r sector ffilm yng Nghymru.

Yn ychwanegol, mae'n ymddangos mai ychydig, os o gwbl, o gyswllt, cydlynu neu gydweithio sydd rhwng BBC Cymru a BBC Films, gyda'i gyllidebau ffilm mwy sylweddol a chylch gwaith penodol i ddatblygu cynnwys ffilm. Byddem yn dyfalu bod y diffyg cydlynu mewnol hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y ffaith na fu i BBC Films ymwneud o gwbl â chynnwys yn y Gymraeg; a'r lefel gyfyngedig eithriadol y bu i BBC Films ymwneud â'r gwaith o gynorthwyo ffilmiau hir sy'n tarddu o ddoniau o Gymru. Cafodd Ffilm Cymru rywfaint o lwyddiant yn y maes hwn – gan gynnwys cyd-ddatblygu'r ffilm hir bresennol, *Denmark*, gyda chwmni o Gaerdydd, Severn Screen (gyda'r cyfarwyddwr Marc Evans, a Rhys Ifans yn serennu), ond ni all ein cyllidebau cymharol fach (tua £1m y flwyddyn ar gyfer datblygu a chynhyrchu) gystadlu â'r effaith y gallai'r BBC ei chael wrth weithio mewn ffyrdd mwy cyd-gysylltiedig, ac eirioli ar draws y gwledydd.

Yn y dyfodol, byddem yn pwysleisio mor bwysig ydyw i'r BBC ddatblygu gweithlu mwy cynhwysol, gan gynnwys cymorth i ddatblygu llunwyr cynnwys gwreiddiol (awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr) ar gyfer ffilm, teledu a chynnwys rhyngweithiol (gan gynnwys adnoddau addysgol) – a chynnwys

ymrwymiad penodol i'r dull hwn o weithio ar draws y gwledydd. Mae hyn yn awgrymu y byddai gweithlu mwy amrywiol yn gweithio oddi mewn i'r BBC ac yn y sector cynhyrchu annibynnol, a allai ddarparu syniadau newydd a chael eu hannog i gymryd risgiau cymedrol. Yn ei droi, dylai gweithlu mwy cynhwysol, sy'n cynhyrchu swyddi ar draws cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, rhyw a'r holl nodweddion gwarchodedig, fwydo i mewn i amrywiaeth o gynnwys a fyddai'n apelio at yr amrywiaeth lawn o gynulleidfaoedd, gan sicrhau bod y BBC yn parhau yn gwbl berthnasol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae buddsoddi mewn hyfforddiant yn parhau i fod yn faes hanfodol i'r BBC ei gynnal a'i dyfu er mwyn i Gymru a'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad fyd-eang ac mewn sefyllfa i ymateb i'r cyfleoedd y mae gwell credydau treth (ym meysydd ffilm, teledu o'r radd flaenaf, rhaglenni plant, animeiddio a gemau) yn eu cynnig. Mae'r amgylchiadau cyllidol hyn, ynghyd â'r enw da sydd ers tro am ansawdd, wedi cyfrannu at alw digynsail am newydd-ddyfodiaid i ddiwallu anghenion y sector yn awr, yn ogystal ag i'r dyfodol. Pan gaiff cyllidebau eu torri, y mae'n anochel bod perygl o symud tuag at feddwl am y tymor byr, a byddem yn pwysleisio'n gryf mor bwysig yw cynnal, ac yn wir tyfu capasiti hyfforddi'r BBC er budd yr economi creadigol ehangach.

**Trefniadau ariannu, llywodraethu ac atebolrwydd y BBC, yn bresennol ac i'r dyfodol, yn y modd y maent yn berthnasol i Gymru:**

Mae Ffilm Cymru yn deall y bydd pob maes y tu allan i adrannau gwarchodedig yn wynebu toriadau mewn cyfnod o lymdra, a gallai maint sylweddol y BBC gynnig cyfleoedd penodol i ddatblygu arbedion effeithlonrwydd pellach. Ond byddem yn pwysleisio y pwysigrwydd sylfaenol sydd i warchod a gwella cyllidebau cynnwys gwreiddiol ym maes ffilm a theledu, gan roi pwyslais penodol ar mor bwysig ydyw i'r cynnwys hwn adlewyrchu cynulleidfaoedd a gweithlu creadigol pob un o wledydd y Deyrnas Unedig.

Fel a nodwyd uchod, y mae eisoes ddiffygion nodedig yng ngweithredoedd comisiynu ffilm y BBC ar draws y Deyrnas Unedig, gyda dim ond 1 prosiect yn y Gymraeg (fel rhan o raglen Sinematig Ffilm Cymru) a 3 phrosiect yn y Saesneg a ddeilliai o Gymru mewn cyfnod o ddegawd, sydd yn bryder sylweddol. Mae hyn yn cyfeirio at yr angen i BBC Films weithio'n fwy integredig gyda'u cydweithwyr ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys BBC Cymru, i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chomisiynu doniau a chynnwys ffilm gwreiddiol ledled y gwledydd.

Hyd yma, mae'r BBC wedi cefnogi rhaglenni doniau newydd, drwy BBC Films, o ffilmiau byr i gynlluniau ar gyllideb fach megis Microwave (gyda Film London), i-Features (gyda Creative England) a Sinematic (gyda Ffilm Cymru). Drwy Sinematig, cynorthwywyd y gwaith i gynhyrchu 3 ffilm hir gan awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr o Gymru – 2 yn Saesneg ac 1 yn Gymraeg gan Euros Lyn (Happy Valley, Sherlock) mewn partneriaeth ag S4C a'r BFI. Bu'r rhain yn ffyrdd cost-effeithiol iawn i BBC Films gefnogi doniau newydd ar draws y Deyrnas Unedig, gyda chyfanswm ei chyfraniad i 3 ffilm hir Sinematig yn ddim ond £200k, er enghraifft. Ond mater o bryder eithriadol yw inni gael ein hysbysu bod BBC Films yn bwriadu tynnu'n ôl o bob cynllun o'r fath ar gyfer doniau newydd yn y dyfodol. Yn sicr, dylai'r cymorth hwn i'r genhedlaeth nesaf o lunwyr cynnwys fod yn greiddiol i'w hethos o wasanaeth cyhoeddus – yn hytrach na'r pwyslais cynyddol ar gyfarwyddwyr a ddringodd yr ysgol yn y byd masnachol.

P'un a yw'r BBC yn parhau i fod ag Ymddiriedolaeth neu ryw ffurf arall ar strwythur llywodraethu, y mae'n hanfodol bwysig bod y BBC yn parhau'n atebol o ran ei pherthnasedd i bob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig, a'i rôl o ran datblygu pa mor gynhwysol yw gweithlu a llunwyr cynnwys y sector ar

draws pob un o'r gwledydd. Byddem yn cefnogi cynnwys cynrychiolwyr penodol o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr (gyda ffocws y tu allan i Lundain) – gan sicrhau sgiliau a phrofiadau eang – er mwyn cydnabod mor benodol yw'r amgylchiadau ar draws y gwledydd.

**Dyfodol S4C, gan gynnwys sut caiff ei hariannu, ei threfniadau gweithredu a llywodraethu, a'r gwasanaethau mae'n eu darparu:**

Gan fod Cymru yn swyddogol yn wlad ddwyieithog, gyda chydraddoldeb i'r iaith wedi'i gadarnhau yn y gyfraith, y mae'n hanfodol y caiff hyn ei adlewyrchu'n llawn yn allbwn diwylliannol y BBC yn ei chylch gwaith ledled y Deyrnas Unedig *yn ogystal â* thrwy ei hymrwymiad parhaus i gefnogi allbwn S4C.

Dylai'r ymrwymiad hwn fod yn hollgwmpasog i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor cynnwys ffilm a theledu a chynnwys rhyngweithiol ac addysgol ar draws y ddau ddarlledwr, gan gynnwys datblygu a chomisiynu llunwyr cynnwys lleol, hyfforddi gweithwyr presennol a newydd-ddyfodiaid i'r sector, a diogelu a gwella'r cynnwys a ddarperir i gynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol.

Byddai strwythurau llywodraethu, gweithredu ac ariannu yn elwa o ddull cyfannol sy'n llwyr gydnabod yr effaith gydgysylltiedig sydd i'r darllediad ac ecoleg ehangach y diwydiannau creadigol.

**Sut caiff lles Cymru ei gynrychioli yn ystod y broses adnewyddu:**

Croesawn ymrwymiad penodol Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig fod â rolau clir, cyfartal ac wedi'u cytuno wrth ddatblygu Siarter newydd y BBC, a byddem yn gobeithio y bydd y dull cydgysylltiedig hwn yn parhau y tu hwnt i'r broses adnewyddu.

Dylai'r pwerau hyn sicrhau bod gan y BBC strwythurau llywodraethu, rheoli ac ariannu sy'n adlewyrchu anghenion Cymru ac sy'n well o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu, cynhyrchu a chyflenwi cynnwys o'r gwledydd a'r rhanbarthau. Agwedd allweddol ar y bartneriaeth hon yw:

*"gwthio'r BBC i fod ag ymagwedd fwy cynrychioliadol at gomisiynu, datblygu doniau a chynhyrchu o'r holl wledydd a'r rhanbarthau ac ar eu cyfer".*

Cefnogwn y cynnig hwn yn llawn ac edrychwn ymlaen at gydweithio â'r llywodraeth, y BBC ac S4C i symud hyn yn ei flaen.